



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: ATISN 10136

Dyddiad: 15 Chwefror 2016

Annwyl ,

Cais am Wybodaeth – cyfeirnod ATISN 10136

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law Llywodraeth Cymru ar 21 Ionawr 2016.
Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

Byddai'n ddefnyddiol i ni wybod faint o staff mae'r Llywodraeth yn eu cyflogi yn ei swyddfeydd yn Aberystwyth a Chaerfyrddin, a faint o'r staff hynny sy'n siarad Cymraeg; ac i wybod faint ohonynt, fel cyfanswm, ac yn siaradwyr Cymraeg sydd yn gweithio'n rhan amser a faint sydd yn gweithio'n llawn amser.

Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn dangos nifer y staff parhaol a dros dro a oedd yn cael ei gyflogi gan Lywodraeth Cymru ar 31 Ionawr 2016 - ar gyfer y sefydliad cyfan, ac ar gyfer y lleoliadau hynny y nodwyd gennych, gan gynnwys nifer y siaradwyr Cymraeg. O ran Caerfyrddin, mae'r ffigurau'n cynnwys dwy swyddfa, sef Adeiladau'r Llywodraeth, Picton Terrace, a Hill House, Picton Terrace. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu system wirfoddol o hunanasesu ac adrodd mewn perthynas â'r Gymraeg. Gofynnir i'r staff nodi eu gallu yn y Gymraeg ar sail graddfa o '0' i '5' – sef bod '1' yn cynrychioli'r gallu i gynnal sgwrs sylfaenol yn Gymraeg, a '5' yn cynrychioli bod yn gwbl rugl yn y Gymraeg. At ddibenion y cais hwn, rwy wedi cynnwys manylion aelodau o staff sydd wedi cofnodi eu gallu ar lefel '1' neu'n uwch.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ

neu



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

CentralDepartments-FOI/DP@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.cymru.gov.uk

drwy e-bostio: FreedomOfInformationOfficer@cymru.gsi.gov.uk

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

Atodiad 1
Llywodraeth Cymru - Lefelau Staffio (31 Ionawr 2016)

		Amser Llawn	Rhan-amser	Cyfanswm
Aberystwyth	Pob aelod o staff	234	49	283
	Siaradwyr Cymraeg	180	42	222
Caerfyrddin	Pob aelod o staff	180	31	211
	Siaradwyr Cymraeg	129	21	150